

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 29 IONAWR 2026

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIUYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, DYDD IAU, 29 IONAWR 2026 AM 10:00 AC AILGYNNUL O BELL AR 2 CHWEFOR 2026 AM 14:00.

Presennol

G Chapman – Cadeirydd (Aelod Lleyg)

S Easterbrook

O Clatworthy

M L Hughes

Aelodau Lleyg - Presennol

A Bagley

Presennol yn Rhithwir

C Davies – 2 Chwefror
MJ Williams

RM Granville

S J Griffiths

RL Penhale-Thomas

Aelodau Lleyg - Presennol yn Rhithwir

D Austin

A Bagley – 2 Chwefror

B Olorunnisola

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

C Davies – 29 Ionawr
RL Penhale-Thomas – 2 Chwefror

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

Swyddogion

Jake Morgan
Carys Lord
Janine Nightingale
Jonathan Parsons
Deborah Exton
Nigel Smith
Andrew Wathan
Joan Davies
Rachel Keepins
Alex Rawlin
Kate Pask
David Williams
Samantha Clements
Jemma Trivett
Allison Rees
Bethan Hopkins
Stephen Griffiths
Michael Pitman

Prif Weithredwr
Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Datblygu Rheolwr Grŵp
Dirprwy Bennaeth Cyllid
Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd
Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
Dirprwy Bennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol
Rheolwr Perfformiad Corfforaethol
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Archwilio Cymru
Swyddog Craffu Dros Dro/Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd

273. Cymeradwyo'r Cofnodion

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 27 Tachwedd 2025 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	29 Ionawr 2026

274. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mewn ymateb i'r adroddiad, codwyd y materion canlynol: • Roedd angen diweddariad ar yr ymchwiliad i brynu cynhwysydd cludo. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y byddai'n dosbarthu nodyn ysgrifenedig i'r Aelodau yn amlinellu'r canfyddiadau. Er mwyn tawelu meddyliau'r Pwyllgor, dywedodd nid oedd hi'n credu bod twyll bwriadol wedi digwydd, ond bod angen hyfforddiant ar rai swyddogion i ddiweddarau eu gwybodaeth am brosesau caffael. Gofynnodd y Cadeirydd am baratoi adroddiad byr ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. • Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r adroddiad y gofynnwyd amdano ar Harbwr Porthcawl. Nododd y byddai'r adroddiad blynyddol ar Harbwr Porthcawl yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth ac yna, ar ôl ei gymeradwyo, gellid ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a darparodd sylwadau, fel y bo'n briodol.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	29 Ionawr 2026

275. Adroddiadau Archwilio Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno dau adroddiad gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor: • Adolygiad Rheoli Risg – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – (Atodiad A) – Ystyriodd Archwilio Cymru a yw trefniadau rheoli risg y Cyngor yn ei gefnogi i reoli'r risgiau a allai ei atal rhag cyflawni ei amcanion strategol yn effeithiol. Atodwyd Ffurflen Ymateb Rheolwyr y Cyngor yn Atodiad B. • Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – (Atodiad C) –
----------------------	--

	Ystyriodd Archwilio Cymru a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi'r Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu i ddarparu gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau. Atodwyd Ffurflen Ymateb Rheolwyr y Cyngor yn Atodiad D. Mewn ymateb i'r adroddiad cyntaf, Adolygiad Rheoli Risg – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, trafododd yr aelodau y materion canlynol: • Gofynnodd y Cadeirydd a oedd Archwilio Cymru yn fodlon lle, yn ymateb y rheolwyr, dim ond yn rhannol y derbyniwyd cwpl o'r argymhellion. Mewn ymateb, dywedodd cynrychiolydd o Archwilio Cymru eu bod yn fodlon ar y cyfan. Eglurodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod y canfyddiadau yn yr adroddiad wedi'u derbyn a bod y Cyngor ar daith o ran rheoli risg. Fel rhan o'r daith honno, nododd fod polisi cysylltiedig wedi'i ddiweddarau nes ymlaen ar yr agenda. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod rheoli risg wedi bod yn faes heb ddigon o adnoddau, ac roedd hynny wrthi'n cael ei ddatrys. • Mynegodd yr Aelodau bryderon am gynnwys yr adroddiad, ac awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor dderbyn diweddariadau rheolaidd am weithredu newidiadau mewn perthynas â rheoli risg. • Mynegodd Aelod y farn bod y Cyngor, dan arweiniad yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr newydd, yn ymddangos fel petai'n symud tuag at sefyllfa lai gwrth-risg, ond byddai hynny'n galw am eglurder ynghylch perchnogaeth risgiau, ac adnoddau priodol ar gyfer rheoli risg. Roedd yn gobeithio bod y Cabinet yn ymwybodol o hynny. • Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â nodi arfer da yn y maes hwn, nododd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru nad oeddent wedi cynnal adolygiadau o drefniadau rheoli risg mewn cyngorau ledled Cymru felly nad oeddent mewn sefyllfa i gyfeirio at arfer da. Fodd bynnag, roedd yna grŵp rheoli risg Cymru gyfan, a byddai hyn yn galluogi perthynas fwy agored a thryloyw rhwng cydweithwyr sy'n gweithio yn y maes hwn. • Nododd y Prif Weithredwr y bu diffyg capasiti o ran gallu'r Cyngor i reoli prosiectau newid cymhleth, a bod hynny'n cael sylw fel rhan o'r agenda drawsnewid. • Mynegodd Aelod bryder ynghylch a oedd y Cyngor mewn sefyllfa ariannol i wneud yr hyn a amlinellwyd yn gyflym, o ystyried bod proses y gyllideb bron wedi dod i ben ar gyfer eleni. Nododd fod y Cyngor wedi mynd ati i adolygu swyddogaethau canolog yn drwyadl dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd yna bolisi o ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, ond roedd hynny wedi llesteirio'r Cyngor o ran swyddogaethau swyddfa gefn fel rheoli newid, prosiectau a risg, ac yn enwedig rheoli datblygiad, a nododd mai nhw oedd yr injans anweledig a alluogodd weddill y sefydliad i symud ymlaen. • Gofynnodd Aelod Lleyg am gofrestr o bolisiâu gyda'u dyddiadau dyledus fel y byddai Aelodau'n gwybod pryd y byddai angen adnewyddu polisiâu. Gofynnodd y Cadeirydd am adael hynny i swyddogion ei drafod ac yna ei adrodd yn ôl i'r Aelodau maes o law. • Nododd Aelod, er bod yr offer a'r adnoddau i wneud y gwaith o reoli risg yn bwysig, y dasg allweddol oedd ymgorffori diwylliant rheoli risg ar draws y sefydliad.
--	--

	• Nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod angen sefydlu beth oedd awydd y Cyngor i ysgwyddo risg ac yna sicrhau bod hynny'n cael ei ystyried ym mhob cynllun yn y dyfodol, boed yn ymwneud â'r gyllideb, datblygu gwasanaethau, neu'r rhaglen gyfalaf. • Gofynnodd Aelod pa wahaniaeth y byddai trigolion yn sylwi arno o ganlyniad i'r adroddiad. Nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod y ffocws wedi bod ar adolygu'r polisi rheoli risg a chodi ymwybyddiaeth yn y Cyngor fel bod risg yn dod yn rhan o'r diwylliant. • Roedd angen codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o risg ymhlith yr Aelodau fel eu bod yn gadael cyfarfodydd gyda sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli'n gywir. • Eglurodd y Cadeirydd nad oedd yr adroddiad wedi dod i'r casgliad nad oedd strwythur rheoli risg o fewn y Cyngor. Nododd Archwilio Cymru fod angen ei gryfhau a bod angen proses wella. Dywedodd fod y Pwyllgor wedi cael sicrwydd gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y byddai hynny'n cael ei gyflawni. Gofynnodd i swyddogion adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y cerrig milltir allweddol fel y bo'n briodol. Mewn ymateb i'r ail adroddiad, Gwasanaeth Cynllunio a Datblygu – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, trafododd yr Aelodau'r canlynol: • Nododd Aelod fod Archwilio Cymru wedi datgan bod gan y Cyngor ddealltwriaeth gyfyngedig o bwysigrwydd y gwasanaeth cynllunio a datblygu, gyda gwendidau yn y ffordd y rheolir adnoddau, risg a pherfformiad, a bod diffyg cynllun gwasanaeth a goruchwyliaeth briodol gan y gwasanaeth. • Roedd Aelod o'r farn bod y Cyngor wedi bod yn ddiogel gyda'r gwasanaeth cynllunio. Tynnodd sylw at ran o adroddiad Archwilio Cymru a nododd diffyg tystiolaeth o unrhyw bwyllgor cyhoeddus yn derbyn gwybodaeth am berfformiad y gwasanaeth, ac nad oedd digon o ymwybyddiaeth, goruchwyliaeth a chraffu ar y gwasanaeth, er ei fod yn alluogwr hanfodol ar gyfer cyflawni uchelgeisiau'r cyngor. Awgrymodd fod angen model llywodraethu newydd a bod angen i oruchwyliaeth y pwnc hwn fod yn eitem bwysig ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor. • Cytunodd y Cadeirydd ac awgrymodd y gallai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion, ac o ran y mecanweithiau adrodd yn benodol. Nododd hefyd fod y mater hwn yn cysylltu'n dda â'r gwaith rheoli risg a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod. • Nododd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi cymeradwyo un o'r Cynlluniau Datblygu Tir mwyaf uchelgeisiol ac yna ni chynyddodd yr adnodd cynllunio i gyd-fynd ag ef. Roedd hynny'n fethiant o ran rheoli risg. Ni welodd unrhyw dystiolaeth o broblem ddiwylliannol yn y maes cynllunio o ran peidio â bod eisiau newid. Roedd yn rhaid i'r Cyngor ddarparu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth, rhoi goruchwyliaeth strategol iddynt, ac yna cynnal y systemau sy'n eu monitro a'u dwyn i gyfrif drwy gydol y broses. Ychwanegodd ei fod wedi cael ei galonogi gan arweinwyr y gwasanaeth yn achub y blaen i gael hyfforddiant ar ddefnyddio deallusrwydd artifisial, a chan eu gwydnwch.
--	--

	<u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor Adroddiadau Archwilio Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Atodiad A ac Atodiad C, ynghyd â Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor i'r adroddiadau yn Atodiad B ac Atodiad D.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	29 Ionawr 2026

276. Strategaeth Rheoli Trysorlys 2026-27

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2026-27 drafft (Atodiad A) i'r Pwyllgor, a oedd yn cynnwys: • Strategaeth Benthycu 2026-27. • Strategaeth Fuddsoddi'r Trysorlys 2026-27. • Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod 2026-27 i 2028-29. Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau y canlynol: • Dyled y Cyngor a'i rôl bosibl wrth gefnogi uchelgeisiau'r Cyngor, proffil dyled y Cyngor, a goblygiadau posibl dyled ar refferiwl a'r berthynas â'r Dreth Gyngor. • Mewn perthynas â phwynt penodol ynglŷn â swm y llog a delir ar ddyled y Cyngor, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod hyn yn cael ei adrodd yn rheolaidd fel rhan o adroddiadau rheoli'r Trysorlys chwarterol a aeth i'r Cabinet a'r adroddiad chwe mis a aeth i'r Cyngor, ond roedd hi'n hapus i'w rannu gyda'r Pwyllgor cyfan. Atgoffodd yr Aelodau hefyd fod cyfarfodydd a sesiynau briffio preifat ar gael i'r Aelodau i drafod pob agwedd ar gyllid y Cyngor. • Cododd Aelod broblemau ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd yn adroddiad Rheoli'r Trysorlys a goblygiadau posibl y gwendidau a'r meysydd i'w datblygu yn yr adroddiad Adolygiad Rheoli Risg gan Archwilio Cymru a ystyriwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, wrth i'r Cyngor gwblhau ei adolygiad risg, y byddai Rheoli'r Trysorlys yn cael ei gynnwys a byddai angen i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys mwy o wybodaeth (yn enwedig o ran anghenion gwasanaeth a buddion) ynghylch canlyniadau rhai o'r risgiau a gymerid pe bai'r Cyngor, er enghraifft, yn benthycu mwy yn y dyfodol. • Trafododd Aelod a'r Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y posibilrwydd o gyhoeddi bondiau ac offerynnau tebyg er
----------------------	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 29 IONAWR 2026

	mwyn lleihau costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell ariannu. • Gofynnodd Aelod a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i ddefnyddio cronfeydd nas defnyddiwyd, a nodwyd o ganlyniad i oedi wrth gychwyn neu reoli prosiectau cyfalaf, i fuddsoddi mewn prosiectau 'gwario i arbed' eraill er mwyn cael cyfradd enillion well nag o fuddsoddiadau mwy traddodiadol. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod awydd y Cyngor i fuddsoddi mewn prosiectau 'gwario i arbed' yn llawer cryfach nag yr oedd ychydig yn ôl, a gallent gael effaith gadarnhaol ar y cyfrif refeniw. Mewn perthynas â'r rhaglen gyfalaf, unwaith y byddai cynlluniau wedi'u hariannu'n llawn, hyd yn oed os nad oedd y cynllun yn cyflawni yn unol â'r proffil mewn unrhyw flwyddyn benodol, byddai o hyd angen sicrhau bod yr arian hwnnw ar gael. • Nododd y Cadeirydd, pe bai polisi Rheoli'r Trysorlys yn newid o ganlyniad i'r ystyriaeth a roddir i'r adroddiad Adolygiad Rheoli Risg, yna byddai hynny'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn: • Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys drafft ar gyfer 2026-27 (Atodiad A); ac • Argymhell bod y Strategaeth Rheoli Trysorlys derfynol wedi'i diweddarau, sy'n adlewyrchu'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf sydd ar gael, yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ar 17 Chwefror ac yna i'r Cyngor i'w chymeradwyo ar 25 Chwefror 2026.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	29 Ionawr 2026

277. Datganiad Cyfrifon 2024-25: Y Gwersi a Ddysgwyd

Penderfyniad a Wnaed	Pwrrpas yr adroddiad oedd cyflwyno i'r Pwyllgor y gwersi a ddysgwyd yn dilyn cwblhau archwiliad Datganiad Cyfrifon 2024-25. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	29 Ionawr 2026

278. Asesiad Perfformiad Panel

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno i'r Pwyllgor ymateb drafft y Cyngor i'r argymhellion Asesiad Perfformiad Panel a gynhaliwyd rhwng 16-19 Medi 2025, i'w ystyried. Wrth gyflwyno'r adroddiad drafft a rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r materion a drafodwyd ynddo, nododd y Prif Weithredwr ei fod yn gynllun deinamig a oedd wedi'i ddiweddarau i egluro'r sefyllfa ddiweddaraf cyn belled ag y bo modd. Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr aelodau y canlynol: • Nododd Aelod nad oedd canfyddiadau'r adroddiad yn syndod enfawr, ac nad oedd yn credu bod yr argymhellion a'r ymatebion yn annheg na heb eu mesur. Croesawodd y drafodaeth wleidyddol aeddfed a synhwyrol ynghylch yr adroddiad ac roedd o'r farn bod gan yr ymateb gefnogaeth drawsbleidiol, yn enwedig o ran yr angen am fuddsoddiad strategol mewn aelodau o staff. • Cododd Aelod Lleyg ddau bwynt am y cynllun: yn gyntaf, nododd ei bod yn werth meddwl am strategaeth a chynllun cyfathrebu pan fo gofyn i sefydliad fynd ar daith sy'n cynnwys newid diwylliannol; ac yn ail, pwysleisiodd bwysigrwydd datblygu arweinyddiaeth. Cydnabu bwysigrwydd y rhaglen arweinyddiaeth ond roedd am wybod mwy am sut y byddai'r sefydliad yn gwybod ei fod yn gwneud gwahaniaeth ac yn cael effaith. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr bwysigrwydd y cysylltiad rhwng y prosesau atebolrwydd a hunanwerthuso a fframweithiau cynllunio. Y nod oedd creu rhywbeth sylweddol well, gydag arweinwyr mwy medrus, gyda mwy o gapasiti. • Nododd y Cadeirydd ei fod yn credu ei bod yn werth cynnwys pwynt bwled am ddatblygu strategaeth gyfathrebu a'i fod o'r farn, o ran datblygu arweinyddiaeth, ei bod yn werth ystyried y ffaith y bydd etholiadau Cyngor yn cael eu cynnal ym mis Mai 2027, a phe bai llawer o Aelodau newydd, gallai fod yn haws ymgorffori newid diwylliannol. • Gofynnodd Aelod Lleyg arall am y gwaith ar y gweill o weithredu a gwerthuso cynlluniau a strategaethau y cytunwyd arnynt ar hyn o bryd (y Strategaeth Ddigidol, er enghraifft) a'r dull o ddatblygu rhai newydd o ganlyniad i'r cynllun trawsnewid. • Dywedodd Aelod y byddai'n gwerth chweil pe bai swyddogion yn cyfarfod â'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ac annibynwyr i sicrhau proses bontio llyfn pe bai newidiadau yn y weinyddiaeth ar ôl etholiadau'r Cyngor. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr y byddai swyddogion yn fwy na pharod i ymateb i gynnig cymorth ac arweiniad ac ateb cwestiynau ac ymholiadau. Ychwanegodd Aelod fod y Gwasanaethau Democrataidd wedi
-----------------------------	---

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 29 IONAWR 2026

	sefydlu gweithgor i wneud y gwaith angenrheidiol, yn enwedig mewn perthynas â sefydlu aelodau newydd, yn barod ar gyfer yr etholiadau yn 2027. Nododd y Cadeirydd yn gyntaf y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cynllun yn cynnwys geirfa o'r byrfoddau a ddefnyddir i nodi unigolion sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun; ac yn ail, roedd yn meddwl tybed a allai agwedd benodol ar y cynllun i gynnal hunanwerthusiadau o feysydd gwasanaeth elwa o fewnbwn allanol, annibynnol. Mewn ymateb i'r ail bwynt, amlinellodd y Prif Weithredwr y broses hunanwerthuso a nododd ei fod yn gobeithio, wrth i wahanol bwyllgorau craffu ystyried cynlluniau busnes wrth iddynt fynd ymlaen, y byddai rhywfaint o'r gwaith hunanfyfrio a hunanwerthuso yn bwydo i'r gwaith hwnnw ac felly'n rhoi rôl i Aelodau pwyllgorau craffu o ran dilyn yr edefyn hwnnw rhwng hunanwerthuso, nodi risgiau a chynllunio busnes. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd ac ystyriodd y Pwyllgor ymateb drafft y Cyngor i argymhellion yr APP yn Atodiad 1.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	29 Ionawr 2026

279. Polisi Risg Corfforaethol ac Asesiad Risg Corfforaethol

Penderfyniad a Wnaed	Pwrrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi Asesiad Risg Corfforaethol 2025-26 wedi'i ddiweddarau a Pholisi Rheoli Risg Corfforaethol wedi'i ddiweddarau i'r Pwyllgor. Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr aelodau y canlynol: - Nododd Aelod fod yr adroddiad yn creu darlun o Gyngor a oedd yn amlwg ddim yn gweithio fel y dylai. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod y Cyngor yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â'r risgiau yr oedd yn eu hwynebu. Roedd y Cyngor yn sefydliad cymhleth, a gallai risg gael effaith mewn sawl ffordd wahanol. Fodd bynnag, yr hyn y ceisiodd yr asesiad risg corfforaethol ei wneud oedd dangos bod y risgiau'n cael eu cydnabod, ac amlinellu'r camau lliniaru sydd ar waith i leihau a rheoli'r risgiau hynny. - Nododd y Cadeirydd y byddai'n werth cael eglurder ynghylch a oedd y Cyngor mewn perygl o gyhoeddi hysbysiad Adran 114, gan ddatgan ei fod yn fethdalwr i bob pwrrpas. Ymatebodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid drwy nodi bod yna risg yn y ddogfen ynghylch y gyllideb, ond roedd hi'n amau bod unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr nad oedd wedi cofnodi materion cyllidebol fel risg uchel ar eu dogfennau asesu risg. Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor yn agos at gyhoeddi hysbysiad Adran 114.
----------------------	--

	• Gofynnodd Aelod, yn gyntaf, pam roedd yr adroddiad yn nodi nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol gysylltiedig ag asesiad risg corfforaethol, pan fo nodi risgiau a'u lliniaru yn amlwg yn cynnwys elfen ariannol; ac yn ail, a allai swyddogion edrych ar wneud cysylltiad cryfach rhwng yr asesiad risg corfforaethol a'r cronfeydd wrth gefn a gedwir gan y Cyngor. Mewn ymateb i'r pwynt cyntaf, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid mai'r rheswm pam y cafodd ei ysgrifennu fel hynny oedd oherwydd nad oedd unrhyw arian wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol o ganlyniad i'r asesiad risg corfforaethol. O ran yr ail bwynt, derbyniodd fod angen gwneud cysylltiad cryfach rhwng yr asesiad risg corfforaethol a'r hyn sy'n digwydd yn y gyllideb. • Nododd Aelod Lleyg, yn gyntaf, fod y gwahaniaeth rhwng risg a phroblem yn un pwysig wrth ystyried y polisi rheoli risg; yn ail, er bod rhai o'r camau gweithredu yn cynnwys naratif am bethau sy'n cael eu gwneud, nid oes unrhyw beth am ddwyn pobl i gyfrif am weithredoedd penodol, y gellid ei ddefnyddio i asesu a oeddent yn gwneud gwahaniaeth wrth leihau sgoriau a roddwyd. Oni bai bod y mecanweithiau rheoli hynny yn lleihau'r sgôr, nid oedd rheolaeth ar waith mewn gwirionedd; ac yn olaf, cwestiynodd y sgôr a roddwyd ar gyfer y risg parhad busnes a nodwyd. • Gan gysylltu'n ôl â'r adroddiad Adolygiad Rheoli Risg gan Archwilio Cymru, pwysleisiodd Aelod bwysigrwydd sganio'r gorwel a'i rôl wrth ragweld cyfleoedd a bygythiadau yn y dyfodol. • Gofynnodd Aelod pa rai o'r risgiau a amlinellwyd yn y ddogfen yr oedd hi'n dderbyniol eu gadael heb eu datrys ar ôl chwe blynedd. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid fod yna ddau fath o risgiau, i bob pwrpas: y rhai sy'n codi oherwydd natur y sefydliad ac sy'n hirdymor, fel y gyllideb, a bod y Cyngor yn ceisio rheoli'r risgiau cysylltiedig o flwyddyn i flwyddyn yn ôl yr angen ac fel y bo'n briodol; ac yn ail, risgiau gyda therfyn amser oherwydd eu bod yn gysylltiedig â digwyddiadau neu newidiadau penodol, sy'n cael eu tynnu o'r rhestr ar ôl iddynt gael eu datrys yn foddhaol. • Nododd y Cadeirydd ei fod yn disgwyl gweld y casgliadau a'r argymhellion a amlinellwyd gan Archwilio Cymru ac a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, a'r pwyntiau a wnaed gan yr Aelodau a'r Aelod Lleyg, yn cael eu hadlewyrchu yn natblygiad y dogfennau dan ystyriaeth, yr oedd yn gobeithio y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried eto cyn diwedd y flwyddyn. <u>PENDERFYNWYD:</u> Ystyriodd y Pwyllgor: • Yr Asesiad Risg Corfforaethol (Atodiad A); a • Cytuno ar y newidiadau a gynigiwyd ym mharagraff 3.2 cyn cyflwyno'r Asesiad Risg Corfforaethol i'r Cyngor i'w gymeradwyo ar 25 Chwefror. • Ystyried a chymeradwyo Polisi Rheoli Risg Corfforaethol newydd y Cyngor yn Atodiad C.
--	---

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 29 IONAWR 2026

Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	2 Chwefror 2026

280. Cynnydd yn Erbyn Cynllun Archwilio Mewnol ar Sail Risg 2025-26

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i Aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio yn y Cynllun Archwilio Mewnol ar Sail Risg 2025-26 a gymeradwywyd. Mewn ymateb i'r adroddiad, gofynnodd Aelod am amlinelliad o a) y broses ar gyfer gweithio gyda swyddogion ar ôl cyflwyno'r adroddiadau archwilio drafft a therfynol; a b) yr hyn, er budd tryloywder, a rennir gyda'r cyhoedd am archwiliad. Darparodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol atebion i'r rhain. <u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd yr aelodau gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol ar Sail Risg 2025-26.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	2 Chwefror 2026

281. Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol

Penderfyniad a Wnaed	Rhoddodd yr adroddiad hwn ddatganiad sefyllfa i'r Aelodau ar statws argymhellion archwilio mewnol ar 31 Rhagfyr 2025. Mewn ymateb i'r adroddiad, gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar yr argymhelliad mewn perthynas â'r prosiect caffael i weithredu system i nodi gwariant cyflenwyr yn hawdd lle nad oes contract sefydledig rhwng y Cyngor a'r cyflenwr. Nododd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd fod hwnnw wedi bod yn brosiect eithaf cymhleth, yn cynnwys gwaith i uwchraddio'r system yn sylweddol yn ystod 2025-26. Roedd Cyllid bellach yn gweithio gyda Chaffael i gasglu gwybodaeth eithaf manwl at ei gilydd i gefnogi gweithredu hyn, gan nodi holl bryniannau contract y Cyngor drwy'r system gyllid. Yn ogystal, roedd swyddogion yn cysylltu â darparwr y gwasanaeth i ddarparu ymgynghoriaeth gan fod angen gwneud rhywfaint o waith pellach i orffen y prosiect, a gobeithiodd y byddai'n cael ei wneud erbyn Ebrill 2026.
----------------------	---

	<u>PENDERFYNWYD:</u> Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ac ystyriodd y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan RIAS. Gofynnodd y Pwyllgor i RIAS gyfeirio tri argymhelliad at y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a bod diweddariadau ysgrifenedig ar gynnydd yn cael eu paratoi gan y swyddog cyfrifol a nodwyd a'u cyflwyno i'r Aelodau: • Safonau'r Gymraeg – Yn unol â Safonau'r Gymraeg 122 a 126 (Gweithredol), rhaid i'r testun ar dudalen hafan y fewnwyd, y rhyngwyneb a'r dewislenni fod ar gael yn Gymraeg ac yn gwbl weithredol. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod opsiwn ar gyfer mewnwyd staff ddwyieithog. • Darpariaeth Amgen y Bont – Adolygu'r polisi derbyn er mwyn ystyried cynnwys y broses ar gyfer lleoliadau disgyblion yn y Bont. • Ymgynghorwyr – Bydd cytundeb ysgrifenedig ar gyfer penodi'r ymgynghorydd a benodwyd gan CBSRhCT yn cael ei wneud rhwng CBSP a RhCT.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	2 Chwefror 2026

282. Blaenraglen Waith 2025-26

Penderfyniad a Wnaed	Pwrpas yr adroddiad hwn oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Blaenraglen Waith newydd ar gyfer 2025-26. Nodwyd bod dyddiad y cyfarfod nesaf yn syrthio yn ystod y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd ac roedd swyddogion yn aros i glywed a fyddai'r cyfarfod yn mynd yn ei flaen. Mewn ymateb i'r adroddiad, anogodd Aelod y pwyllgor i ystyried byrhau'r agenda ar gyfer cyfarfodydd. <u>PENDERFYNWYD:</u> Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Blaenraglen Waith newydd ar gyfer 2025-26 a'r Blaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2026-27, yn amodol ar y diwygiad canlynol:
----------------------	--

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 29 IONAWR 2026

	Ychwanegu adroddiadau ar fater y cynhwysydd cludo a Harbwr Porthcawl at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	2 Chwefror 2026

275. Eitemau Brys

Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	2 Chwefror 2026

I wyllo dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00 ar 29 Ionawr ac am 14:59 ar 2 Chwefror 2026.